**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 10am yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth, ddydd Iau 13 Mawrth 2025**

| | |
|---|---|
| **Yn Bresennol:** | Cath Smith (Cadeirydd)<br>Gareth Wynn Davies, John T Davies, Jack Evershed, Hugh Hesketh-Evans, Mike Humphreys, Emlyn Roberts, Vicki Spencer-Francis, Caroline Sanger-Davies |
| **Trwy wahoddiad:** | Rhys Pugh (Llywodraeth Cymru);<br>(*Ar gyfer Eitem 11*) Paul Tomlinson (Kantar) |
| **Y Swyddogion Gweithredol:** | Jose Peralta, Prif Weithredwr HCC;<br>Meilyr Ceredig – Pennaeth Hyrwyddiadau a Gweithrediadau;<br>John Richards, Arweinydd Cynhyrchwyr a Phroseswyr;<br>Pip Gill, Arweinydd Ymrwymiad Brand;<br>Jo Horder, Ysgrifenyddiaeth;<br>*(Ar gyfer Eitem 11)* Glesni Phillips, Swyddog Gweithredol Gwybodaeth, Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes |

## 1. <u>Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd</u>

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a rhoddodd ddiweddariad byr am y prif ddigwyddiadau a chyfarfodydd y bu'n eu mynychu ers cyfarfod blaenorol y Bwrdd:

- 13 Ionawr: Cyfarfod Llywodraethiant gyda Llywodraeth Cymru – trwy gyfrwng Teams
- 16 Ionawr: Mynychu Bwrdd Da Byw NFU Cymru – yn y cnawd
- 22 Ionawr: Cyfarfod â'r Dirprwy Brif Weinidog ynghyd â'r Prif Weithredwr newydd yn y Senedd, ac wedyn Brecwast Undeb Amaethwyr Cymru yng Nghaerdydd
- 23 Ionawr: Cyfarfod Cyflwyniadau Llywodraeth Cymru/Y Prif Weithredwr
- 27 Ionawr: Hidlo ceisiadau Aelodau Bwrdd HCC gyda phanel – trwy gyfrwng Teams
- 6 Chwefror: Bwrdd HCC: Diweddariad drwy Teams
- 13 Chwefror: Mynychu SAB Cyswllt Ffermio – trwy Zoom
- 17 Chwefror: Cyfarfod â Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Gwybodaeth Da Byw (JP a GJ) – trwy Teams
- 19 a 20 Chwefror – Cyfweld Ymgeiswyr Bwrdd HCC – gyda Phanel – yn y cnawd
- 24 Chwefror – Cyfarfod ar y cyd o Fyrddau Ardoll y pedair gwlad (LMC, AHDB, QMS a HCC) – yn y cnawd (Llundain)
- 25 Chwefror – Cynhadledd yr NFU - Llundain
- 6 Mawrth – Digwyddiad Siarter Busnes Bwyd Menywod Busnes Cig - Llundain
- Cyfarfodydd â'r Swyddogion Gweithredol a/neu Llywodraeth Cymru yn ôl y gofyn drwy gydol y cyfnod.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Jack Evershed o hyn ymlaen.

## 2. <u>Ymddiheuriadau am absenoldeb</u>

Nodwyd ymddiheuriadau gan Gareth Jones (HCC), Russ Thomas (HCC); Jason Craig (HCC) a Maria Richards (Llywodraeth Cymru).

3. **Datganiadau o Fuddiannau**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

**4. I gymeradwyo cofnodion o gyfarfodydd y Bwrdd:**

*a. Cyfarfod o'r Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 9 Ionawr 2025*

Cymerwyd bod yr uchod yn gywir, a chafodd ei gymeradwyo fel y'i diwygiwyd gan y Bwrdd.

*b. Cyfarfod diweddaru'r Bwrdd a gynhaliwyd dydd Iau 6 Chwefror 2025*

Cymerwyd bod yr uchod yn gywir, a chafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

**5. Materion yn codi**

*Penodiadau i'r Bwrdd*

Nodwyd bod y broses wedi ei chwblhau a bod dau benodiad wedi eu gwneud, i ddechrau ar 1 Ebrill 2025. Gwneir cyhoeddiad cyn bo hir.

*Aml Rywogaeth Cymru*

Nodwyd bod hyn wedi cael ei ohirio tan 2026.

*Cyfleoedd am gyllido yn y dyfodol / Fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM)*

Nodwyd bod y gwaith gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi'r SLM yn tynnu at ei derfyn. Cafodd papurau eu paratoi ar gyfer edrych ar ddewisiadau rheoli pori a geneteg defaid.

Ynghylch cyllido yn y dyfodol, roedd HCC wedi cyfarfod ag Adran Fwyd Llywodraeth Cymru, Cyswllt Ffermio a Lantra er mwyn dechrau trafod cyfleoedd a chael mynediad i gyllid.

*Polisi Aflonyddu Rhywiol*

Cafodd y polisi ei gymeradwyo. Roedd cynlluniau ar gyfer hyfforddi staff yn mynd yn eu blaen.

*Cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru ar gyfer 2025-26*

Cafodd cyfraddau'r ardoll a argymhellwyd eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Roedd cysylltiadau â'r diwydiant yn cael eu paratoi .

Ymdriniwyd â'r holl faterion eraill a oedd yn codi ar yr agenda.

**6. Cyflwyniad am Ymgyrch HCC ar gyfer Cig Eidion Cymru PGI 2024 – 2025**

Cyflwynwyd yr uchod gan yr Arweinydd Ymrwymiad Brand a rhoddodd drosolwg o'r ymgyrch gan gynnwys yr amcanion, negesau, y strategaeth gyfryngol a'r sianeli a ddefnyddiwyd.

Amlygwyd canlyniadau allweddol yr ymgyrch. Drwyddi draw, roedd elfennau fel ymwybyddiaeth brand ac adnabyddiaeth logo yn dal i fod yn gymharol statig o'u cymharu

â chanlyniadau 2004 ond yn uwch nag yn 2023 gan amlaf.

Wrth gloi, nodwyd y bu’r ymagwedd aml-sianel yn effeithiol; roedd wedi cadw ymwybyddiaeth yn gymharol statig ac yn uwch nag yn ystod ymgyrchoedd digidol yn y gorffennol. Roedd y gyllideb ostyngol ar gyfer yr ymgyrch yn dechrau cael effaith ar ganlyniadau. Pe bai cyllidebau yn dal i fod yn statig, byddai angen strategaethau ymgyrchu gwahanol.

## 7. Adroddiadau HCC

*a. Adroddiad darpariaeth a digwyddiadau i ddod*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen a bod pwyntiau allweddol wedi cael eu hamlygu gan yr Arweinyddion;

*Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol -*

- Cafodd y Map Trywydd Cig Eidion a Chig Oen ei lansio ym mis Chwefror;
- Cynhaliwyd sesiwn Cig-weithio i edrych ar ganlyniadau’r arolwg defnyddwyr ac i ymweld â fferm gig eidion ar Ynys Môn;
- Bydd yr arolwg Defnydd o Ddŵr yn parhau am bythefnos arall. Cafodd dderbyniad rhesymol hyd yma;
- Bydd HCC yn cynnal gwaith amgylcheddol sylfaenol ar wyth fferm yng Nghymru dros y 12 mis nesaf, fel rhan o brosiect ehangach yn y DG mewn cydweithrediad â’r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB).

*Marchnata Strategol a Chysylltiadau –*

- Roedd ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut y bydd ymgyrch Cig Oen Cymru yn cael ei redeg yn 2026;
- Roedd arolwg yn cael ei gynnal gyda chynhyrchwyr Porc i ddysgu sut y gall HCC eu cefnogi orau;
- Cafwyd cysylltiadau cyhoeddus da yn dilyn yr arolwg cig ac iechyd a Chynhadledd HCC;
- Cynhelir Clwb Swper i’r cyfryngau ddiwedd mis Mawrth, gan ganolbwyntio ar bopeth sy'n ymwneud â Chig Eidion Cymru.

*Cynhyrchwyr a Phroseswyr –*

- Mae BVDCymru wedi'i sefydlu, ac mae HCC ar y gweithgor;
- O ran y Tafod Glas, nid oes unrhyw newid wedi bod yn y sefyllfa yng Nghymru. Mae trafodaethau'n digwydd ynghylch cynlluniau rheoli ar gyfer yr hirdymor.

Gofynnwyd a oedd y gwaith o ddadansoddi cylch bywyd wedi'i gwblhau a phryd y gallai'r Bwrdd weld y canlyniadau. Bydd hyn yn cael ei ddilyn.

**Gweithredu: Arweinydd Cynhyrchwyr a Phroseswyr**

*b. Ariannol – Cyfrifon Rheoli tan 31 Ionawr 2025*

Cymerwyd bod yr adroddiad yn gywir.

Nodwyd bod yr adroddiad yn darlunio sefyllfa alldro dda iawn ar ôl deuddeg mis anodd. Canmolwyd Swyddogion Gweithredol HCC a'r tîm ehangach gan y Bwrdd am gyflawni hyn.

**8. Rhannu Gwybodaeth**

*a. Crynodeb o Fwletin y Farchnad – Chwefror 2025*

Cymerwyd bod yr adroddiad yn gywir.

*b.* Effaith Tariffau Trump

Cymerwyd bod yr adroddiad yn gywir.

*c. Canlyniadau Arolwg Bwriadau Ffermwyr HCC – Dadansoddiad Pellach*

Cymerwyd bod yr adroddiad yn gywir.

*d. Ymgyrch Cig Oen Cymru – Canlyniadau Gwerthiant Cardiau Nectar*

Cyflwynwyd yr uchod gan yr Arweinydd Ymrwymiad Brand.

Roedd ymgyrch ADSmart Sky ar gyfer Cig Oen Cymru yn rhedeg o 1 Medi i 31 Hydref 2024. Y nod oedd cael mwy o Gig Oen Cymru yn rhan o'r ymgyrch 'Blasu'r Gwahaniaeth' yn siopau Sainsbury's ledled y DG.

Yn gyffredinol, roedd hwn yn gysyniad llwyddiannus, ac mae cyfleoedd tebyg pellach yn cael eu hystyried.

**9. Corfforaethol**

*a. Cynllun Gweithredol drafft 2025-26*

Darparodd y papur ddrafft terfynol wedi'i ddiweddaru o Gynllun Gweithredol 2025-26 gan gynnwys dyraniadau cyllideb arfaethedig a dangosyddion perfformiad allweddol i'w hystyried.

Aeth yr Arweinydd Cynhyrchwyr a Phroseswyr drwy'r dangosyddion perfformiad allweddol i'w cyflawni. Drwyddi draw, y nod oedd cadw dangosyddion perfformiad allweddol yn gyson i olrhain cynnydd. Tynnwyd sylw at unrhyw newidiadau o gynllun 2024/-25.

Nododd y Bwrdd y Cynllun. Byddai'r dangosyddion perfformiad allweddol sydd i'w cadarnhau yn cael eu cwblhau ar yr adeg priodol.

*b. Rhagolwg Cyllideb 2025-26*

Cymerwyd bod yr adroddiad yn gywir a nodwyd y tybiaethau allweddol.

Cymeradwyodd y Bwrdd y rhagolwg cyllideb arfaethedig ar gyfer 2025-26.

**10. Pwyllgorau HCC**

Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg

*a. I dderbyn adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ddydd Gwener 6 Mawrth 2025*

Darparodd Cadeirydd y Pwyllgor adroddiad llafar o'r cyfarfod. Y pwyntiau allweddol a amlygwyd oedd:

- Archwilio allanol - Bydd Archwilio Cymru yn dod â chynllun archwilio manwl ar gyfer 2024-25 i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Mehefin 2025. Bydd Archwilio Cymru yn anelu at ymgymryd â'r gwaith terfynol i gau'r cyfrifon ym mis Hydref i'w cymeradwyo yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd 2025. Trafodir ffioedd ym mis Mehefin.

- Archwiliad Mewnol -
  - Cynllun Archwilio 2024-25: Cafodd dau adolygiad eu cwblhau, mae un bron â'i gwblhau, ac mae un yn mynd rhagddo. Dylai pob adolygiad gael ei gwblhau a'i adrodd i'r Pwyllgor ym mis Mehefin 2025. Roedd canfyddiadau'r archwiliad Rheoli Cyllidebol yn gadarnhaol iawn ar y cyfan heb ddim i'w adrodd;
  - Camau Rheoli: Rhoddwyd diweddariad am gynnydd. Bu'r Pwyllgor yn trafod yr amserlen hirach a gynigiwyd ynghylch cynllunio olyniaeth ar gyfer pob rôl allweddol/hanfodol yn HCC. Cytunwyd y dylid adrodd am gynnydd yng nghyfarfod mis Mehefin 2025;
  - Cynllun Archwilio 2025-26: Cyflwynwyd y cynllun archwilio drafft terfynol. Ni fu unrhyw newidiadau, a chymeradwywyd y cynllun gan y Pwyllgor;
- Cyflwynwyd dau bolisi allweddol gan HCC, sef y Polisi Monitro Gweithle a'r Polisi Defnydd Derbyniol o Dechnoleg Gwybodaeth. Cafodd y naill a'r llall eu cymeradwyo gan Pwyllgor;
- Rheoli Risg
  - Cyflwynwyd adroddiad a oedd wedi'i strwythuro'n dda ac yn hawdd ei ddeall. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ystyried manteision gweithredu system wybodaeth rheoli risg a sicrwydd busnes sy'n seiliedig ar y cwmwl. Rhoddir diweddariad yng nghyfarfod mis Mehefin 2025;
  - Bu'r Pwyllgor yn trafod yr awydd am risg a neilltuwyd mewn perthynas ag Iechyd a Diogelwch a Thwyll Ariannol, y ddau wedi'u hasesu fel 'Gofalus'. Trafodwyd a ddylai hyn fod yn 'Lleiaf'. Bydd y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol yn ailasesu yn unol â hynny ac yn adrodd i gyfarfod y Bwrdd ym mis Mai 2025;

*Cytundeb Fframwaith Drafft*

Nodwyd yr adroddiad gan y Bwrdd.

Argymhellodd y Pwyllgor i'r Bwrdd y dylai'r 'Cytundeb Fframwaith' gael ei lofnodi gan y Swyddog Cyfrifyddu yn amodol ar gytuno ynghylch y naratif arfaethedig a'i ymgorffori. Cymeradwyodd y Bwrdd yr argymhelliad.

*Egwyddorion ar gyfer Cyhoeddi Cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio*

Nodwyd yr adroddiad gan y Bwrdd. Nodwyd bod HCC yn cydymffurfio â'r egwyddorion.

Argymhellodd y Pwyllgor i'r Bwrdd fod yr egwyddorion yn cael eu mabwysiadu. Cymeradwyodd y Bwrdd yr argymhelliad.

Y Grŵp Arloesi ac Ymchwil Cynaliadwy

*b. I gymeradwyo Cofnodion cyfarfod y Grŵp a gynhaliwyd ar 19 Medi 2024*

Cymerwyd bod yr uchod yn gywir, a chafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

*I gael adroddiad llafar am gyfarfod y Grŵp a gynhaliwyd ddydd Mercher 16 Ionawr 2024*

Rhoddodd Cadeirydd y Grŵp ddiweddariad llafar. Y pwyntiau allweddol a amlygwyd oedd:

- Cynhaliwyd y cyfarfod ar fferm yn Aberhonddu ac roedd y presenoldeb yn dda;
- Rhoddwyd diweddariad am benodiadau allweddol HCC;
- Rhoddodd pob aelod ddiweddariad am weithgareddau a gwybodaeth berthnasol

diweddar yn eu meysydd / busnesau;

- Rhoddodd HCC yr wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau Ymchwil a Datblygu;
- Amlinellodd Arweinydd Datblygu Marchnad HCC waith y tîm datblygu'r farchnad, gan ganolbwyntio ar allforio a rôl Ymchwil a Datblygu ac arloesedd wrth ategu'r strategaeth farchnata;
- Rhoddodd Canolfan Amaethdechnoleg y DG yr wybodaeth ddiweddaraf am eu ffrydiau ariannu a rhwydwaith y ffermydd.

Codwyd mater y sylw diweddar yn y cyfryngau i ddefnydd Bovaer gan ffermydd llaeth, a chynhaliwyd trafodaeth ynghylch a ddylai HCC wneud sylwadau ar ran y diwydiant mewn amgylchiadau fel hyn.

Nodwyd bod yr egwyddor hon wedi cael ei chodi gyda'r byrddau ardoll a bod camau wedi'u cymryd i drafod ar y cyd ac, os yw'n briodol, i gyhoeddi datganiad ar y cyd pan fydd materion o'r fath yn codi. Bydd hyn yn cael ei ddilyn i ddatblygu cynllun ar gyfer y dyfodol.

**Gweithredu: Prif Weithredwr / Pennaeth Hyrwyddiadau a Gweithrediadau**

## 11. Rhagweld y Galw gan Ddefnyddwyr hyd at 2030 – cyflwyniad Kantar

Rhoddodd Kantar gyflwyniad cynhwysfawr am yr uchod, gan gynnwys y cyd-destun marchnad ac economaidd ehangach, tueddiadau a ffactorau sy'n rheoli a beth mae hynny'n ei olygu i ddyfodol gwariant defnyddwyr, ffactorau sy'n rheoli perfformiad a thueddiadau cig coch cynradd (PRM) a thoriadau cig coch nawr ac yn y dyfodol.

I grynhoi, daeth y cyflwyniad i'r casgliad bod chwyddiant / pŵer gwario yn debygol o barhau i fod yn brif ysgogydd perfformiad. Roedd y pwyntiau allweddol yn cynnwys:

- Mae llai o gig coch cynradd yn cael ei werthu a disgwylir i'r gostyngiad barhau yn araf wrth i brisiau godi; fodd bynnag, efallai y bydd mwy o adferiad cyfaint yn sgil COVID/ yr argyfwng costau byw os bydd chwyddiant yn arafu fwyfwy;
- Mae'n debyg y bydd Cymru'n dilyn tuedd Prydain ond efallai y bydd yr adferiad ychydig yn arafach o ran twf gwariant;
- Mae'n debyg y bydd briwgig yn un o'r ychydig doriadau i weld rhywfaint o dwf mewn cyfaint wrth i ddefnyddwyr barhau i brynu toriadau rhatach a chyfleus.

Diolchodd y Bwrdd i Kantar am yr wybodaeth a thrafododd yr hyn a gyflwynwyd. Gofynnwyd am ddadansoddiad pellach i benderfynu faint o friwgig oedd yn cael ei ddefnyddio ym Mhrydain y dyddiau hyn ac i ddadansoddi'r berthynas rhwng prisiau pwysau marw gwartheg dethol a phrisiau toriadau cig eidion yn y siopau ym Mhrydain.

**Gweithredu: Swyddog Gweithredol Gwybodaeth, Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes**

## 12. Unrhyw fater arall

Dim.

## 13. Dyddiadau cyfarfodydd i ddod

Diweddariad Bwrdd drwy gyfrwng Teams – Dydd Iau 10 Ebrill 2025 am 9.30am
Cyfarfod o'r Bwrdd – Dydd Iau 8 Mai 2025 am 10.00am

## Sesiwn Caeedig o Fwrdd HCC

Cafwyd cyfarfod ar wahân a chyfrinachol o'r Bwrdd wedyn.

**Llofnodwyd…………………………….**